OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 102 (Cy. 50)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Cyflwynodd Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 fframwaith cyfreithiol y caiff llywodraeth leol ymgymryd â gwariant cyfalaf oddi mewn iddo. Yng Nghymru, caiff Gweinidogion Cymru reoleiddio'r gweithgarwch hwnnw drwy reoliadau. Gwnaed darpariaeth o'r fath gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3239 (Cy. 319)) ("Rheoliadau 2003").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2003 ac maent yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2015 ac wedi hynny.

O dan arferion cyfrifyddu priodol mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fesur asedau a rhwymedigaethau ariannol ar sail gwerth teg. Ystyr gwerth teg yw'r pris y byddid yn ei gael wrth werthu ased neu a delid wrth drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr yn y farchnad ar y dyddiad mesur.

Pan gytunir ar fenthyciad ar sail gwerth sy'n wahanol i'r gwerth teg yna rhaid cydnabod y gwahaniaeth rhwng y swm a fenthyciwyd a'r gwerth teg yng nghyfrif refeniw awdurdod lleol. Mae'r arferion cyfrifyddu priodol yn nodi y gallai methiant i gydnabod y gwahaniaeth rhwng y symiau hynny arwain at gyflwyno barn amodol ar gyfrif refeniw.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael gwared ar y gofyniad i awdurdodau lleol gydnabod, mewn cyfrif refeniw, y gwahaniaeth rhwng gwerth teg a'r gwerth y cytunwyd arno ar gyfer y benthyciadau a gafodd yr awdurdodau lleol hynny yng Nghymru sydd â stoc dai gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ("BBGC").

Sefydlwyd y system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai ("CCRT") yn wreiddiol er mwyn galluogi Llywodraeth y DU i ddynodi pa gymorth ariannol oedd ei angen ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr er mwyn rheoli eu tai cyngor. Ym mis Ebrill 2015 ymunodd yr un awdurdod lleol ar ddeg a oedd â stoc dai yng Nghymru â chynllun prynu allan, gan ymadael â'r system CCRT drwy ddefnyddio benthyciadau'r BBGC. Mae prynu allan o'r CCRT yn rhoi rhyddid newydd i awdurdodau lleol yng Nghymru wella tai ac adeiladu tai newydd. Unwaith y bydd darpariaethau perthnasol Deddf Tai (Cymru) 2014 yn dod i rym, bydd y system CCRT yn cael ei diddymu o ran Cymru.

Cafodd y benthyciadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt eu tynnu i lawr ar 2 Ebrill 2015 er mwyn prynu allan o'r CCRT. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw rwymedigaethau eraill sy'n perthyn i awdurdod lleol.

Yn unol â'r diwygiad a wneir gan reoliad 3, rhaid cydnabod y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau'r BBGC yng nghyfrif refeniw awdurdod lleol ar y diwrnod y mae'r awdurdod yn dod yn atebol am y llog hwnnw, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Ystyriwyd Cod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar Is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o'r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 102 (Cy. 50)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2016

*Gwnaed* *28 Ionawrr 2016*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *3 Chwefror 2016*

*Yn dod i rym* *31 Mawrth 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 21(1), 24 a 123(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 31 Mawrth 2016.

(**1**) 2003 p. 26. Diwygiwyd adran 24 gan adran 238(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28). Mae'r pwerau o dan adran 21(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, yn rhinwedd adran 24(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 fel y'i diwygiwyd. Roedd y pwerau wedi eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 24(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2003" ("*the 2003 Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003(**1**).

**Diwygio Rheoliadau 2003**

**2.** Mae Rheoliadau 2003 wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 3.

**Arferion cyfrifyddu**

**3.** Ar ôl rheoliad 25 o Reoliadau 2003 mewnosoder—

> "**25A. Accounting treatment of loans from the Public Works Loan Board drawn down on 2 April 2015**
>
> (1) This regulation applies to loans for the purpose of funding the settlement payment to exit the HRA Subsidy system—
>
> (a) given to local authorities by the Public Works Loan Board; and
>
> (b) drawn down on 2 April 2015.
>
> (2) Where the interest rates applicable to the loans specified in paragraph (1) are agreed at a rate of interest which is other than the prevailing market rate of interest set on 2 April 2015, a local authority is not required to recognise in its revenue account any difference from the prevailing market rate for the purpose of fair value.
>
> (3) Interest payable on a loan specified in paragraph (1) must be recognised in a local authority revenue account on the day when, or as soon as practicable after, a local authority becomes liable to pay that interest.
>
> (4) This regulation applies to the financial years beginning on and after 1 April 2015.
>
> (5) In this regulation—
>
> "fair value" means the price that would be received to sell an asset or paid to transfer a liability in an orderly transaction between market participants at the measurement date, in accordance with proper practices as defined in regulation 25;
>
> "HRA Subsidy" means the system established under section 79 of the

---

(**1**) O.S. 2003/3239 (Cy. 319) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/1010 (Cy. 107), 2006/994 (Cy. 93), 2006/2914, 2007/1051 (Cy. 108), 2008/588 (Cy. 59), 2009/560 (Cy. 52), 2010/685 (Cy. 67) a 2014/481 (Cy. 58).

Local Government and Housing Act 1989(1).”

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus,, un o Weinidogion Cymru
28 Ionawr 2016

(**1**) 1989 (p. 42). Bydd adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn cael ei diddymu o ran Cymru gan adran 131(2) a (3)(a) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7).